Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

25/09/2019

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Wedi dechrau ar eu cyrsiau TGAU ers mis Mehefin diwethaf, sylweddolwn yr her sydd yn gwynebu eich plentyn dros y ddwy flynedd nesaf. Yn sgîl hyn, rydym wedi cynllunio nifer o strategaethau i gefnogi eich plentyn ar y siwrnai allweddol yma dros y misoedd nesaf. Yn amlwg, mae'n allweddol ein bod yn eich cynnwys chi fel rhieni yn y strategaethau yma.

Er mwyn ein caniatau i esbonio'n cynlluniau i gefnogi'ch plentyn yn llawn, hoffwn i chi fynychu noson arbennig ar gyfer rhieni disgyblion blwyddyn 10. Wrth weithredu ar adborth positif gan rhieni disgyblion blwyddyn 11 mewn nosweithiau tebyg, y bwriad yw gwneud hyn yn gynt ym mlwyddyn 10 er mwyn cael yr effaith fwyaf posib. Byddwn yn cynnal noson **'Anelu'n Uwch Gyda'n Gilydd'** ar nos **Iau y 3ydd o Hydref** yn yr ysgol, i ddechrau **am 18:00 o'r gloch.** Bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn ystod y noson.

Ein bwriad yw rhannu strategaethau y gallwch chi eu defnyddio er mwyn cefnogi'ch plentyn ymhellach i gyrraedd ei b/photensial. Mae'r rhain yn cynnwys:

- paratoi ar gyfer profion ac arholiadau,
- medrau adolygu a dulliau dysgu effeithiol,
- meddylfryd i wella.

Mae sicrhau partneriaeth glos rhwng y cartref a'r ysgol yn allweddol i lwyddiant pob disgybl. Yn sgîl hyn, edrychwn ymlaen at eich croesawu unwaith eto i fod yn rhan o'r noson ac i drafod unrhyw faterion pellach gyda chi.

Cofion gorau,

Simon Davies

Pennaeth

Dear Parent / Guardian,

Having started their GCSE courses back in June, we recognise the challenges that your child will face over the next two years. As a result, we have planned several strategies to support your child during this journey over the coming months. Naturally, it's essential that we include you, as parents, in implementing these strategies.

In order for us to fully explain our plans to support your child further, we ask you to attend a parents evening for year 10 pupils. Following positive feedback from our year 11 parents during a similar evening earlier this year, we have decided to hold the evening earlier in year 10 in order to get maximum effect from these strategies. The **'Aiming Higher Together'** evening will be held at the school on **Thursday the 3rd of October, starting at 18:00**. Light refreshments will be provided.

The purpose of the evening is to share strategies that you will be able to use to support your child to achieve his / her potential. These include:

- preparation for tests and examinations
- effective revision skills and learning strategies,
- growth mind-set strategies.

Ensuring that there is a positive and supportive home school partnership is essential in the success of all pupils. As a result, we look forward to welcoming you to the school once again to participate in this beneficial evening, as well as to discuss any matters that may be of concern to you.

Kind regards,

Simon Davies

Head

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol